# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Dachwedd 2023 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Geraint Evans, Geraint Edwards, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Richard C Evans

2. Datgan diddordeb: Nid oedd yr un cynghorydd wedi datgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 16 Hydref 2023:

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Michael Davies oedd wedi gwasanaethu fel cynghorydd cymuned ac wedi gwasanaethu'r gymuned am nifer o flynyddoedd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.
I anfon cerdyn cydymdeimlad at deulu'r diweddar Michael Davies.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101866 | £210.06 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101867 | £52.60 |
| Jones & Jones | Pentref | 101868 | £1,344.00 |

Trafodwyd llythyr yr oedd wedi ei dderbyn gan Barclays yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cyfrif banc.

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.
Y Cyng Bethan Lawton i ffonio Barclays parthed trefniadau diogelwch a chadarnhau manylion y cyfrif.

5. Cyngor Gwynedd - Cynllun Datblygu Lleol (2024 - 2039) Cytundeb Cyflawni Drafft:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais am gyfarfod i drafod Cynllun Eryri:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cynnig o gyfarfod i drafod y cynllun gan gynnig un o gyfarfodydd arferol y cyngor.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - ymateb i gais Cyngor Cymuned Bryncrug i dderbyn copi caled o geisiadau cynllunio:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan APCE yn egluro nad oedd yr awdurdod yn bwriadu dychwelyd i'r drefn o anfon ceisiadau caled yn y post at glercod, ond nodwyd y byddai swyddogion technoleg gwybodaeth yr awdurdod yn edrych ar ffordd o sicrhau bod dolen ar gael yn yr e-bost sydd yn cael ei anfon allan at glercod er mwyn hwyluso'r broses o astudio ceisiadau cynllunio.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu at APCE gan ddiolch iddynt am y llythyr gan nodi y bydd y cyngor yn edrych ar y sefyllfa dros y chwe mis nesaf.

8. Cadw - Cofrestru pwmp codi dŵr hanesyddol:

Nodwyd bod y pwmp wedi ei gofrestru gan Cadw.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Heddlu Gogledd Cymru - Dangos y Drws i Drosedd:

Nodwyd bod angen cant o dai ar gyfer y cynllun ac yr oedd teimlad bod y ffigwr yn uchel i bentref o faint Bryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I adael y mater ar y bwrdd.

10. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn - Afon Fathew/pryder am lifogydd - diweddariad:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda CNC gan fynegi pryder am fanc yr afon o Ddol y Felin tuag at Ynys-y-Maengwyn, sef bod y cyngor yn pryderu bod banc yr afon yn cael ei ddifrodi oherwydd yr arddull ffermio, gan ofyn i CNC gysylltu gyda'r tirfeddiannwr perthnasol.

11. Ysbyty Tywyn a'r Cylch - derbyn gohebiaeth gan Tywyn Hospital Action Group:

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Bethan Lawton:
-Cadeirydd y Bwrdd, Dyfed Edwards a Phrif Weithredwr y Bwrdd, Carol Shillabeer yn dod i Dywyn i fynychu cyfarfod ynghyd â staff eraill megis Ffion Johnstone

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Y pafiliwn heb ei lanhau ar ôl ei ddefnyddio
-Tegell a microdon yn y Pafiliwn ac nid oes gan yr offer trydanol prawf PAT
-Darlleniad trydan ar 20/11/23 oedd 01238
-Eiddew yn tyfu o'r cae chwarae tuag at Bronmeirion ac angen torri gwrychoedd wrth ymyl y llwybr cerdded wrth adael y cae

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cyng Geraint Evans am drefnu prawf PAT i'r offer trydanol.

13. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair ar gyfer 2024/2025:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda'r contractwr presennol er mwyn gofyn am bris am flwyddyn yn unig.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:
-Yn mynychu cyfarfodydd misol y Bwrdd Iechyd
-Yr ysbyty angen un nyrs ar fand cyflog 7 a dau/dwy ar fand cyflog 5
-Dau o nyrsys o India wedi cael eu cyflogi ond nid oes dyddiad cychwyn
-Data yn dangos mai un neu ddau o gleifion sydd yn mynd i Ysbyty Dolgellau i gael gofal, gyda rhan fwyaf o gleifion ardal Tywyn yn cael gwasanaeth adref yn sgil cynllun Tuag Adref
-Bwrdd Iechyd yn anelu i agor ward yn Nhywyn gydag oddeutu 8 gwely
-Ymgynghoriad Ambiwlans Awyr wedi cau
-Ffair Nadolig yn cael ei gynnal yn Ysgol Craig Aderyn ar 7 Rhagfyr 2023
-Ffordd B5504 yn cau ar 23 Tachwedd 2023 a nodwyd bod y ffordd wedi cael ei gau nifer o weithiau dros y misoedd diwethaf a bod cynghorwyr sir yn codi'r mater gyda Chyngor Gwynedd
-Cyngor Gwynedd yn wynebu toriadau enfawr yn y gyllideb ac i wasanaethau ac y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gyflwyno cais i Gyngor Gwynedd - Adran Economi am restr o'r prosiectau bychan a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol 2022/2023 a 2012/2013 yn Ne Meirionnydd gan gynnwys cyllideb y prosiectau er mwyn cymharu.

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gydag uned llwybrau cyhoeddus Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn iddynt gynnal adolygiad o'r giât mochyn ger y bont yn y pentref gyda'r nod o geisio cynyddu hygyrchedd,

gan hefyd ofyn i'r swyddogion edrych mewn i'r mater bod ffens tirfeddiannwr tu ôl i Ddolithel wedi disgyn.

.

Y Cyngor i gyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2024, heblaw bod mater brys sydd yn gofyn am sylw.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:15pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................